| Isle of Anglesey County Council | |
|---|---|
| Adroddiad i: | Pwyllgor Polisi Cynllunio |
| Dyddiad: | 10fed Medi 2025 |
| Pwnc: | Crynodeb ymgynghoriad: Adroddiadau Cwmpasu Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI) ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC) |
| Deilydd Portffolio: | Cyng. Nicola Roberts (Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Newid Hinsawdd) |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | Christian Branch<br>Pennaeth Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd |
| Awdur yr Adroddiad:<br>Ffôn:<br>E-bost: | John I. Williams (Rheolwr Polisi Cynllunio)<br><br>johnwilliams2@ynysmon.llyw.cymru |
| Aelodau Lleol: | Perthnasol i bob Aelod Etholedig |

## 1.0 Pwrpas yr adroddiad

1.1 Mae'r Adroddiad hon er gwybodaeth yn unig. Mae'n canolbwyntio ar y canlynol:

- Ymgynghoriad gyhoeddus ar Adroddiad Cwmpasu'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI):
- Ymgynghoriad gyda Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ar Adroddiad Cwmpasu'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC).

## 2.0 Y penderfyniad a geisir

2.1 Cyflwynir yr adroddiad er gwybodaeth yn unig.

## 3.0 Ymgynghoriad Cyhoeddus ar Adroddiad Cwmpasu'r ACI

3.1 Bydd yr aelodau'n ymwybodol o'r gofynion statudol sy'n berthnasol i ddatblygiad gynaliadwy fod wrth wraidd y broses cynllun datblygu a'r angen i ymgymryd Arfarniadau Cynaliadwyedd (AC) ac Asesiadau Amgylcheddol Strategol (AAS) o Gynlluniau Datblygu Lleol (CDLl).Mae'r fath ofynion yn cael eu gosod allan yn adran 39(2) o Ddeddf Cynllunio a Phryniad Gorfodol 2004 a Rheoliadau AAS 5(2) a 5(4).

3.2 Mae'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu'n argymell dull integredig i'r gofynion hyn drwy ymgymryd ACI o ystyried ei fod yn cynnig asesiad mwy tryloyw, cyfannol a chynhwysfawr o'r goblygiadau cynaliadwy o opsiynnau tŵf, amcanion,

polisiau a chynigion. Mae’r Adroddiad Cwmpasu yn rhoi cyd-destyn i ac yn pennu sgôp yr ACI o’r CDLl yn ogystal a gosod y fframwaith dros ymgymryd camau diweddarach o’r ACI.

3.3 Mae’r Llawlyfr yn awgrymu ymgynghori ar yr Adroddiad Cwmpasu gyda awdurdodau statudol (CNC a Cadw) dros gyfnod o bum wythnos gan ychwanegu y byddai’n arfer da sicrhau byddai’r adroddiad ar gael yn gyhoeddus O ystyried y cyngor ymarfer da roddir yn y Llawlyfr a’r ymroddiad roddwyd yn y Cytundeb Cyflawni i gyhoeddi’r Adroddiad Cwmpasu er ymgynghoriad cyhoeddus, cytunodd yr aelodau yng nghyfarfod y Pwyllgor Cynllunio Polisi i gyfnod o ymgynghori mewn perthynas a’r ACI fyddai’n gwahodd sylwadau gan y canlynol:

- Cyrff ymgynghori arbennig;
- Cyrff ymgynghori cyffredinol;
- Gwasanaethau’r Cyngor,
- Cyrff ymgynghori amgylcheddol; a’r
- Cyhoedd.

3.4 Cynhaliwyd cyfnod ymgynghori dros gyfnod o 5 wythnos rhwng 9fed Gorffennaf a’r 13eg Awst 2025 a, thu draw i’r ymatebion gan ymgynghorai statudol, dim ond un ymateb dderbyniwyd ac hynny gan Heneb (yr Ymddiriedolaeth dros Archeoleg Cymru)

3.5 Gofynwyd 5 cwestiwn arbennig o’r ymatebwyr:

- A oes unrhyw ddogfennau neu negeseuon allweddol ar goll o adolygiad y cyd-destun polisi a gwblhawyd ar gyfer bob thema Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig?
- A oes unrhyw ffynonellau data neu dueddiadau allweddol ar goll o’r wybodaeth sylfaen ar gyfer bob un?
- A oes gennych unrhyw sylwadau ar faterion allweddol sydd wedi’u hadnabod ar gyfer bob Cynaliadwyedd Integredig?
- A oes gennych unrhyw sylwadau ar amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig a/neu gwestiynau asesu ar gyfer bob thema Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig?
- A oes gennych unrhyw sylw arall ar yr Adroddiad Cwmpasu Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig?

3.6 Gwnaethpwyd sylwadau ar risg llifogydd, safleoedd wedi eu diogelu, ansawdd dwr a thirluniau dynodedig yn ymateb CNC tra roedd ymateb Cadw yn cyfeirio at omeddiadau mewn perthynas a dogfenaeth yr amgylchedd hanesyddol, y sefyllfa ddeddfwriaethol ddiweddaraf a’r angen i ddarparu meini prawf asesiad addas i asesu diogelu a gwella tirluniau hanesyddol.

3.7 Tu draw i’r ymgygnghorai statudol cyfeiriodd ymateb Heneb tuag at newidiadau deddfwriaethol, gomeddiad allweddol o safbwynt Safle Tretadaeth y Byd Beaumaris ac awgrymiadau ynglyn ac addasiadau i rai rhannau o’r Adroddiad Cwmpasu i adlewyrchu’n fwy cywir cyd-destun Cymreig y testun.

3.8 Mae copiau o'r ymatebion dderbyniwyd yn nghyd-destun yr ymgynghoriad wedi eu hatodi fel **Atodiad 1**.

## 4.0 Ymgynghoriad Adroddiad Cwmpasu'r ARhC

4.1 Cafodd y gofyn i ymgymryd a ARhC o gynlluniau datblygu ei gadarnhau gan yr addasiadau i'r Rheoliadau Cynefinoedd 2007; y fersiwn berthnasol o'r Rheoliadau erbyn hyn yw'r Rheoliadau Cynefinoedd 2017, fel a'u diwygwyd.

4.2 Fel yr adroddwyd i Aelodau'r Pwyllgor yn y cyfarfod gynhaliwyd ar 11eg Mehefin 2025, ni ellir integreiddio'r ARhC yn yr ACI oherwydd ei bod yn defnyddio mecanwaith profi rhagofalol wahanol. Serch hyn, dylai'r ACI grynhoi canfyddiadau'r ARhC fel rhan o'r asesiad o'r effeithiau ar fioamrywaieth.

4.3 O ystyried cynnwys a natur dechnegol yr ARhC, cyfyngwyd yr ymgynghoriad ar yr Adroddiad Cwmpasu i CNC yn unig.

4.4 Ymatebodd CNC i'r ymgynghoriad mewn llythyr dyddiedig 22 Awst 2025. Cytunodd bod y dull arfaethedig i'r ARhC yn resymol a bod y safleoedd perthnasol a'r sensitifedd cywir wedi'u hadnabod yn y mwyafrif o achosion tra'n cynnig materion ychwanegol dylid eu hystyried ymhellach cyn paratoi adroddiad sgrinio'r ARhC ac asesiad addasrwydd lle bo angen. Roedd y cyngor pellach yn cyfeirio at y materion canlynol:

- Ansawdd dwr;
- Adnabod nodweddion safleoedd Ewropeaidd;
- Mamaliaid morol;
- SAC Morol Gogledd Môn;
- Cysylltiadau swyddogaethol – angen cynnwys SPA Aber Dyfi yn y sgôp o ystyried y boblogaeth o wyddau blaen gwynion (white-fronted geese sydd yn arbennig i'r SPA a Môn.
- Ymestyn y pellteroedd gwasgariad o safbwynt y trawiadau ar fadfall cribog; ac
- Ansawdd aer ac adnabod safleoedd fyddai'n sensitif i lygredd amonia.

4.5 Mae copi o ymateb CNC i'r ymgynghoriad ar yr ARhC wedi ei atodi fel **Atodiad 2**.

## 5.0 Casgliadau

5.1 Ar y cyfan, mae'r ymatebion i'r ymgynghoriadau ar yr Adroddiadau Cwmpasu ACI a ARhC yn gyffredinol gefnogol o'r dull asesu sy'n cael ei amlinellu ac, oni bai am wneud man-addasiadau yn sgil y sylwadau a'u derbyniwyd, mae'r adroddiadau cwmpasu yn cael eu hystyried i fod yn gadarn ac yn addas ar gyfer eu dibenion.

## 6.0 Argymhelliad

6.1 Argymhellir bod yr Aelodau'n derbyn yr adroddiad.